FLAF02

# FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT

**Cofnodion - 6 Chwefror 2024**

**Gwarchodfa Natur Rhydymwyn**

---

**Aelodau -** Julian Pellett, Huw Morgan, Jeff Shone, Nia Thomas, Alan Neale, Johnny Hulson, Marjorie Thomson, Shirley Fermor, John Holiday,

**Arsylwr -** Ian Hughes, Cyfoeth Naturiol Cymru

**Cyflwynwyr gwadd -** Richard Sumner – Cyfoeth Naturiol Cymru

Dave Shiel – AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

**Swyddogion yn bresennol** - Tom Woodall, Derrick Charlton, Natalie Davies, Adrian Hibbert, Suzanne Williams, Jon Hill, Stuart Jones.

**Ymddiheuriadau -** Sarah Hampson. Y Cynghorydd David Evans.

## 1/ Croeso –

Croesawodd y Cadeirydd bawb i 4ydd cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol. Cafwyd cyflwyniadau gan bawb a oedd yn bresennol a derbyniwyd ymddiheuriadau. Nodwyd bod Neville Howell wedi ymddiswyddo o'r fforwm. Dymunodd Aelodau'n dda iddo a diolchwyd iddo am ei gefnogaeth dros y blynyddoedd.

## 2/ Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd MT nad oedd ei hymddiheuriadau wedi cael eu nodi yn y cofnodion. Yn amodol ar y diwygiad, cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 17 Hydref wedi'u hysgrifennu'n gywir.

**a.** Materion yn Codi

O ran gwyriadau buarth ffermydd, cynigodd JP helpu i ddatblygu polisi, mewn ymateb i hynny, dywedodd TW y byddai'n hapus i rannu drafft unwaith y byddai'n barod.

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd o bwrpas y fforwm ac i drafod achosion unigol â'r tîm ar wahân.

## 3/ Parc Cenedlaethol Newydd.

Rhannodd Richard Sumner drosolwg a diweddariad a oedd ynghlwm â'r cofnodion fel atodiad.

Awgrymodd JP y dylai'r Fforwm Mynediad Lleol ganolbwyntio ar elfennau mynediad a hamdden y prosiect hwn. Nododd y dylai bod ymrwymiad i ddarparu adnoddau priodol a gofynnodd pam nad oedd Mynydd Hiraethog wedi cael ei ystyried?

Dywedodd RS eu bod yn chwilio am ardaloedd eang a mawr iawn.

Gofynnodd JS am byrth i mewn i'r ardal gan fod pwysau sylweddol eisoes yn bodoli o ran ymwelwyr yn yr ardal hon.

Dywedodd RS ei fod yn ymwybodol o'r ardaloedd sydd dan bwysau ac yn chwilio am ffyrdd i'w rheoli. Roedd yn ymwybodol o'r gwerthoedd a'r problemau a oedd ynghlwm â phyrth.

Gofynnodd JP beth oedd manteision ac anfanteision y parc cenedlaethol.

Eglurodd RS y byddai rhagor o gyllid hirdymor ar gael, mynediad a hamdden yn flaenoriaeth uwch, a bod modd gweithio'n fwy strategol ar draws ardal fwy er enghraifft er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau mewn perthynas ag ymwelwyr.

Gofynnodd JP a fyddai gan y Parc Cenedlaethol swyddogaeth gynllunio.

Dywedodd RS efallai y byddai'n rhaid ei rannu â'r awdurdod lleol, nid oedd penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â hyn eto.

Gofynnodd MT a fyddai'r parc cenedlaethol yn rhoi'r AHNE dan anfantais.

Dywedodd RS na fyddai'r AHNE yn bodoli mwyach ac y byddai'r Parc Cenedlaethol yn ei ddisodli.

Gofynnodd JH a fyddai unrhyw gysylltiad ag ardaloedd mwy difreintiedig.

Atebodd RS gan ddweud byddai, yn ddelfrydol, ond roedd yn anodd darparu cysylltiad â rhai ardaloedd pellach.

Gofynnodd JH pa effaith fyddai hyn yn ei gael ar chwarela e.e. Helygain.

Dywedodd RS bod angen gwneud rhywfaint o waith er mwyn gwella eu dealltwriaeth o hyn.

Gofynnodd SF a fyddai modd ystyried pocedi bychain ar Fynydd Helygain.

Dywedodd RS y byddai'r ardal hon yn cael ei chynnwys.

Gofynnodd NT sut y cesglir ymatebion gan bobl.

Eglurodd RS y byddai holiaduron ar-lein a'r ymgynghoriad wedi cael eu cwblhau erbyn mis Mawrth.

Gofynnodd KP a fyddai modd i RS ddarparu copi i'r Fforwm Mynediad Lleol.

Dywedodd TW ei fod wedi cael ei anfon dros e-bost.

Eglurodd RS ei fod wedi cael ei hysbysebu yn y wasg ond na chafwyd llawer o ymatebion.

Cam gweithredu - Roedd RS yn awyddus i glywed barn aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol a byddai'n anfon yr holiadur dros e-bost at y Tîm Mynediad er mwyn drafftio ymateb ar ran y fforwm.

**4/ Mynediad ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol**

Rhoddodd Dave Shiel gyflwyniad ar eu cynllun hamdden a'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo o amgylch Cilcain.

Dywedodd DS ei fod yn awyddus i gael safle mwy parhaol ym Moel Famau gan nad oedd yr hyn a oedd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys yr ardal gyfan.

Gofynnodd SF am y posibilrwydd o gael adeilad newydd ym Mwlch Penbarras, atebodd DS gan ddweud eu bod yn ystyried gosod rhywbeth mwy parhaol yn lle'r 'cwt bugail' llwyddiannus a oedd yno ar hyn o bryd, er mwyn darparu presenoldeb staff a thoiled.

Nododd MT fod yr arwyddion yn llawer gwell a diolchodd i DS.

Gofynnodd JP a oedd yna fws gwennol o'r Wyddgrug.

Dywedodd DS bod bws gwennol yn arfer bod yn weithredol ond y bu'n rhaid diddymu'r gwasanaeth gan fod y cyllid wedi dod i ben. Roedd un gwasanaeth yn rhedeg yn Nyffryn Dyfrdwy ar hyn o bryd a oedd yn boblogaidd iawn.

Nodwyd bod popeth yn gweithio'n iawn nes y daw hi'n eira, felly holodd MT a oedd cynllun eira?

Dywedodd DS bod cynllun eira ar waith a'u bod yn gweithio gyda phriffyrdd Sir Ddinbych.

Dywedodd JS fod ardaloedd poblog yn ffafrio llwybrau oddi ar y ffordd yn arwain at Foel Famau.

Roedd DS wedi ystyried hyn ac roedd nifer o apiau ar gael gyda llwybrau.

Gofynnodd HM a oeddent yn ystyried gwneud hyn yn y Gogledd a'r De?

Eglurodd DS fod cyllid yn gwneud hynny'n anodd.

**Cam gweithredu -** DS i gysylltu â TW er mwyn sicrhau ymgysylltiad pellach â'r Fforwm Mynediad Lleol ar bynciau priodol.

**.5/ Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Mynediad**

**a.** Cyfuno mapiau.

Rhannodd ND y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith, dywedodd eu bod hanner ffordd drwy'r broses hir.  Dywedodd TW y bydd cyfnod ymgynghorol o 6 mis, lle byddai cyfle i'r Fforwm Mynediad Lleol wneud sylwadau.

**b.** Grant Gwella Mynediad.

Gwerth y grant ar gyfer 2023/24 oedd £74,197, gyda'r hawliad cyntaf o £43,663.28 yn cael ei hawlio a'i dderbyn ym mis Hydref a'r £30,533.72 sy'n weddill yn cael ei hawlio cyn diwedd mis Mawrth 2024.  Roedd y cynlluniau'n cynnwys - Gosod 30 - 40 giât mochyn, gwelliannau i arwyneb llwybrau troed a llwybrau ceffyl a gwelliannau i bwyntiau mynediad / mynd allan i fannau gwyrdd a thir mynediad agored.

**c.** Adroddiad yr arolygydd.

Roedd ymdrech sylweddol wedi'i wneud i gwblhau'r arolygon llwybrau ac roedd y tîm Mynediad yn llawer nes at gyrraedd targed yr arolwg blynyddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.  Un o'r nifer o fanteision sydd ynghlwm â data'r arolwg yw ei fod yn ein galluogi i werthuso safon y rhwydwaith Hawliau Tramwy rhwng bob cymuned.  Roedd y dystiolaeth yn dangos bod mwy o angen am welliant mewn ardaloedd megis Nercwys a Threuddyn o'i gymharu ag ardaloedd eraill.  Roedd gwaith yn mynd rhagddo gan AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy mewn perthynas â Choedwig Nercwys.  Cynhaliwyd sawl ymweliad â'r safle mewn ymgais i ddatrys ambell i fater hirsefydlog.  Roedd sawl cyfarfod cadarnhaol wedi cael eu cynnal, yn arbennig gyda pherchnogion tir, a allai helpu i fynd i'r afael â sawl mater mewn perthynas â'r System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS) yn dilyn rhaglen waith syml.

**d.** Crynodeb rhwydwaith o wyriadau, cwynion a rhwystrau.

Roedd y System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS) yn y broses o gael ei hasesu ar gyfer uwchraddiad posibl i fersiwn fwy newydd a allai fod yn haws i'w defnyddio ar gyfer swyddogion a'r cyhoedd.

Y ddolen i wefan CAMS Sir y Fflint yw:
https://rightsofway.flintshire.gov.uk/standardmap.aspx

Roedd aelodau'n derbyn diweddariad chwarterol o ran y materion a oedd wedi cael eu cofnodi/datrys a'r niferoedd presennol o ran dodrefn (mae'r dyddiadau'n deillio o'r CAMS).

Roedd SJ wedi gwirfoddoli i wneud cyflwyniad ar CAMS i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn 2024/25.

**6/ Unrhyw Fater Arall**

Atgoffwyd aelodau'r fforwm gan HM o Gynllun Ffermio Cynaliadwy LIC a'i fod yn llunio ymateb i'w hymgynghoriad. Gofynnodd i aelodau anfon eu sylwadau dros e-bost ato erbyn 5 Mawrth.

**Cam gweithredu -** Aelodau i anfon sylwadau dros e-bost at HM erbyn 5 Mawrth.

Nid oedd unrhyw faterion eraill a daeth y cyfarfod i ben am 12pm.

Cynhelir y cyfarfodydd nesaf ar 13 Mai 2024.
16 Medi 2024
14 Ionawr 2024
8 Ebrill 2025